**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

8 Mai 2017

Annwyl Syr / Madam

**Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth – Ymgynghoriad**

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cynnal ymchwiliad i asesu **pa mor gywir a dibynadwy yw'r amcangyfrif o'r costau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth.** Mae rhagor o fanylion am yr ymchwiliad ar wefan y Cynulliad:

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=19019

Gellir gweld cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn Atodiad 1.

**Gwahoddiad i gyfrannu i'r ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan y rhai sydd â diddordeb yn y pwnc hwn.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg. Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrafodion y Cynulliad Cenedlaethol gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion i'r ymchwiliad ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr haf.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru

Fel arall, ysgrifennwch at:

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA


Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **2 Mehefin 2017**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn. Mae canllawiau ar gael i'r rhai sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn ymlaen at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

**Datgelu gwybodaeth**

Mae polisi'r Cynulliad ynghylch datgelu gwybodaeth ar gael, gofalwch eich bod yn ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Neu, mae copi caled o'r polisi hwn i'w gael drwy gysylltu â'r Clerc (Catherine Hunt 0300 200 6347).

Yours faithfully,



**Simon Thomas AC / AM**

Cadeirydd / Chair

**Atodiad 1 – Cylch Gorchwyl**

- Trafod costau deddfwriaeth, gan gyfeirio'n benodol at y costau sy'n gysylltiedig â detholiad o Ddeddfau, sef:
    - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
- Edrych ar y trefniadau cyfredol ar gyfer adrodd ar gostau deddfwriaethol a'u monitro ar ôl gweithredu deddfwriaeth;
- Nodi effeithiolrwydd ac ansawdd yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sydd wedi'u llunio a sut maent yn llywio'r gwaith o fonitro costau.